

Steffan ab Owain yn dal i olrhain hanes Hen Lyfrwerthwyr 'Stiniog (2)

Dyddiau Cynnydd ac Amser Dedwydd

AWGRYMA hanes y fasnach mai'r Acyfnod rhwng tua 1875 ac 1910 oedd 'oes aur' yr argraffdai, llyfrwerthwyr a newyddiadurwyr y Blaenau 'ma. Yn ddiau mae'n anodd credu heddiw, ond yn ystod y pymtheng mlynedd ar hugain dan sylw chwyddodd poblogaeth ein plwyf i'r fath raddau nes erbyn 1901 roedd dros 11,000. Yn sgil y cynnydd hwn, sefydlwyd pump argraffdy o'r newydd yng nghanol ein tref, sef Gwasg 'Y Rhedegydd' 1878 gan Jones a Roberts; Gwasg R. J. Jones 1881; Gwasg Humphrey Evans 1889; Gwasg Lewis Davies 1899 a Gwasg Thomas Williams 'Y Glorian' 1899.

Roedd Gwasg 'Y Rhedegydd' wedi ei sefydlu eisoes yn 1878 gan Jones a Roberts. Ceir eu hanes yn rhifynnau Awst a Nadolig 1991 o'r *Casglwr*. Yn ogystal, agorwyd oddeutu deg o siopau yn gwerthu llyfrau, cofnodolion a thafenni - a chofier, roedd llawer o'r deunydd a oedd ar werth ganddynt o waith beirdd, llenorion a cherddorion lleol. Yn wir, a chofio'r amseroedd sydd dan sylw gennyf, cynigid amrywiaeth dda o ddeunydd darllen ar gyfer trigolion y dref a'r cylch. Wrth gwrs, nid cyhoeddiadau lleol yn unig a werthid ganddynt a gwelid llyfrau mwyaf poblogaidd y dydd, yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ffenestri eu siopau. Efallai nad anniddorol fyddai cynnwys ychydig enghreifftiau o'r amrywiaeth llyfrau a ysgrifennwyd ac a argraffwyd yn lleol.

* * *

Gwasg Jones a Roberts, Caxton Works Fourcrosses/Blaenau Ffestiniog

Hanes Annibyniaeth ym Mhlwyf Ffestiniog (1879) H. O. Roberts.

Hanes Plwyf Ffestiniog (1879) William Jones 'Ffestinfab'.

Ffestiniog Local Board Bye-Laws (1879).

Yr Eneth Amddifad (1880) John Jones, Tabernacl.

Yr Ymfudwr Cymreig (1883) Ellis o'r Nant.

Guide to Nant Conwy (1884) Ellis o'r Nant.

Cofiant y Parch. Henry Morgan (1885) Parch. E. Parry.

Cyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Gadeiriol Cwmorthin, Rhosydd, Wrysgan a'r Gonglog (1886).

Portmadoc and its Resources (Ysgrifennwyd yn 1856. Arg. tua 1886) Owen Morris (Madog ap Owain Gwynedd).

Eglwys Crist (1887) Edward Parry, Ffestiniog.

* * *

Gwasg W. Lloyd Roberts Y Rhedegydd, Blaenau Ffestiniog

Cyfalaf a Llafur (1890) Edward C. Roberts.

Gemau Gwalia (1891) Parch. W. Pari Huws.

Caniadau Elfyn (d.d.) R. O. Hughes (Elfyn).

Tannau Moliant (1894) Geiriau gan H. Jones (Bryfdir). Y Gerddoriaeth gan William Hughes (Alaw Manod).

Hufen y Gamallt (1895) Treborfab (Archdderwydd y Gymdeithas Enweiriawl).

Briallu'r Glyn (1895) Glyn Myfyr.


Meillion y Glyn (1897) Glyn Myfyr.

* * *

Gwasg Lewis Davies, Y Gloch Blaenau Ffestiniog

Telynu'r Wawr (1899) Bryfdir.

Hanes y Bedyddwyr Neilltuoel ym Mhlwyf Ffestiniog (1900) Lewis Davies (Yn wahanol



Siop y Glorian oddeutu 1908.

i beth a ddywedais mewn erthygl o'r blaen arno, deallaf bellach nad yr un Lewis Davies yw'r awdur a'r argraffwr).

Rhosynnau'r Glyn (1901) Glyn Myfyr.

Diffygion y Cymeriad Cymreig (1902) D. R. Jones.

* * *

Gwasg Thomas Williams, Y Glorian

Tlysau Morlwyd (1899) Edward Williams (Morlwyd)

Methodistiaid Ysbyty Ifan (1900)

W. R. Roberts, Tabernacl

Rheolau Dosbarth Gwynedd o Undeb Annibynol y Rechabiaid (1905)

Y Blaid Llafur Annibynnol (1908). Trefnwyd yn Gymraeg gan R. Silyn Roberts.

Rhestr o destunau Eisteddfod Gilgal ac Utica am Chwefror 1910 (1909)

* * *

Gwasg Davies a'i Gwmni (neu Davies & Co.), Y Rhedegydd

(Yn ystod y cyfnod 1906-1909 mae'n edrych yn debyg fod John Daniel Davies a Lewis Davies yn cydreddeg y busnes. Yna, yn dilyn

y tair blynedd uchod, dechreuodd J. D. Davies reddeg y wasg ar ei liwt ei hun).

Hanes Ysgolion Sabbathol Dosbarth Ffestiniog (1906). gol. Parchedigion D. Hoskins ac Owen Jones.

Catalogue of the Festiniog Public Library (1906).

Arwriaeth John Anthony (1908) Evan Rowlands (Ap Llechwedd).

Rheolau Sefydlog Cyngor Dosbarth Dinesig Ffestiniog (1909).

Canrif o Hanes yr Achos Methodistiaidd yn Nghanysgrisiau 1809-1909 (1909) D. O. Hughes. *Mantolen Dosbarth Gwynedd o Urdd Annibynol y Rechabiaid* (1909) Gwasg J. D. Davies.

Y Ddau Frenin a'r Ddwy Dren (1910) D. O. Hughes (Dolafon). Gwasg J. D. Davies.

* * *

Fel y crybwyllais o'r blaen, cyhoeddwyd nifer o lyfrau eraill gan y tair gwasg ddiwethaf yma yn dilyn y flwyddyn 1910, ond rwyf am eu hebgor y tro hwn a